

Llais Llandyrnog Voice



llandyrnognews@gmail.com



[@LlaisLlandyrnog](https://twitter.com/LlaisLlandyrnog)

Ebrill 2021 – Cyfrol 6 – Rhifyn 7

Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor Sioe Flodau a Chynnyrch Llandyrnog, cytunwyd na fyddai'n bosib cynnal sioe yn Neuadd y Pentre, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch rheoliadau Covid-19. Hyd yn oed petai nifer o bobl yn cael ymgynnull dan do ym mis Awst, fyddai dim digon o amser i drefnu'r sioe i'w safon arferol.

Felly penderfynwyd cael arddangosfa o luniau o eitemau wedi'u cynhyrchu a'u creu yn y pentre a'i gyffiniau, yn unol â'r rheolau arferol (bydd y rhain ar gael gyda rhagor o fanylion am yr arddangosfa).

Gellir anfon ffotograffau drwy e-bost at ysgrifennydd y sioe neu drwy eu rhoi ar dudalen Facebook y sioe, a fydd ar gael yn fuan. Bydd trefniadau ar gael i alluogi'r rheini sydd heb fodd i ddefnyddio'r rhyngwrdd i anfon eu ffotograffau nhw, gan sicrhau na fydd neb sydd am gymryd rhan yn methu gwneud. Bydd y ffotograffau wedyn yn cael eu hargraffu mewn llyfryn. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn rhifyn mis nesa ac ar bosteri/taflenni yn y pentre.

Yn y cyfamser, dyma ychydig o luniau a anfonwyd at y *Llais* y llynedd.



**PASG
HAPUS**



**Diolch i
Gyngor
Cymuned
Llandyrnog
am noddi'r
rhifyn hwn**

Pytiau newyddion y pentre

Cydymdeimlwn â theulu Alby Roberts, Sŵn y Nant gynt a fu farw yn Pendine Park, Wrecsam. Mae teyrnged iddo ar dudalen 4. Cydymdeimlwn hefyd â theulu'r diweddar Ted Rawsthorne, Maes Tynog.

Tristwch hefyd oedd clywed am farwolaeth Gordon Edwards, Y Fferm, Llanfwrog. Roedd Mr Edwards yn borthmon uchel iawn ei barch yn y byd amaethyddol ledled Cymru. Anfonwn ein cofion cynhesaf at y meibion Hugh, Groes Efa a Robat, Pentre Bach a'u teuluoedd.

Dymunwn wellhad buan i Keith Jones a John ein postmon – y ddau heb fod yn anhwylyd yn ddiweddar.

Fel arfer dydy Elwen Evans, Ty'n Llan gynt, ddim yn un sy'n hoff o gyhoeddusrwydd. Fodd bynnag, mae hi wedi recordio dwy raglen ar Radio Cymru, *Elwen QC*, am ei gyrfa ym myd y gyfraith. Maen nhw ar gael o hyd ar wefan BBC Sounds.

Mae'r Athro Elwen Evans, CF, yn Ddirprwy Is-ganghellor Prifysgol Abertawe ac yn Ddeon Gweithredol ar gyfer Cyfadran y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Mae hi hefyd yn gyfrifol am bortffolio iaith a Diwylliant Cymraeg y Brifysgol. Ond i ni, drigolion hŷn y pentre – yr un hen* Elwen Ty'n Llan gartrefol, ddiymhongar, fydd hi byth.
(*ystyr: 'annwyl'!)

Dymunwn ben blwydd hapus iawn i dad Elwen, sef Elwyn Ger y Llan, ar ddiwedd y mis. Pob dymuniad da gan dy holl ffrindiau a chymdogion, Elwyn!

Llongyfarchiadau hefyd i John Adrian, neu JA i'w ffrindiau, a ddathlodd pen blwydd arbennig yn ystod y cyfnod clo ar 20 Mawrth. Mae JA yn gwrthod dweud faint yw ei oed – ond fe gawn ni barti mawr pan fydd yn 81 y flwyddyn nesa. Da iawn, John – mae golwg dda arnat ti!

Dymuniadau da i Paul Clark, Cefn Bithel ar gyrraedd ei hanner canrif – ble gwell i ddathlu nag yn yr ardd?!

Chwilio am aelodau newydd



Mae Sefydliad y Merched Llandyrnog a Llangwyfan yn awyddus i groesawu aelodau newydd!

Mae cangen Llandyrnog yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed eleni – fe gynhaliwyd y cyfarfod swyddogol cyntaf yn yr Ystafelloedd Coco ar 3 Mawrth 1921.

Gan ddibynnu ar y rheolau Covid, rydym yn gobeithio dathlu'r canmlwyddiant gyda digwyddiad a fydd yn cynnwys Côr Meibion y Porthmyn, o bosibl yn yr awyr agored gyda phicnic.

Rydym hefyd yn bwriadu trefnu gweithgareddau eraill, gan gynnwys nosweithiau crefft, noswaith blasu jin, mynd am dro ac yna i'r dafarn i gael pryd o fwyd, ymarfer corff mewn cadair freichiau, sgysiau diddorol, ac efallai taith ar fws.

Rydym bob amser yn agored i wrando ar awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau misol. Os oes gennych dalent neu ddiddordeb arbennig, byddem yn hapus i glywed amdano.

Rydym yn cyfarfod ar yr ail nos Fawrth bob mis yn neuadd y pentref.

Byddwn yn cynnal ein cyfarfod cyntaf yn 2021 unwaith y bydd y cyfyngiadau Covid yn caniatáu, a byddwn yn rhoi poster yn ffenestr y siop i roi gwybod.

Bydd y tâl aelodaeth i aelodau newydd yn cael ei ostwng pro rata, gan ddibynnu ym mha fis yr ydych yn ymuno. Eleni, os na allwn gyfarfod o dan yr un to, gallai'r ffioedd gael eu gostwng i adlewyrchu hynny.

CROESO MAWR I CHI YMUNO A NI!

Rydym yn grŵp cyfeillgar sy'n awyddus iawn i groesawu aelodau newydd, felly croeso i bob merch 18 oed neu'n hŷn.

I gael rhagor o wybodaeth, ffoniwch Cal Venning (ysgrifennydd) 07977 934544 neu Rhian Chapman (trysorydd) 07765 852922.



Yn ddiweddar, gofynnodd Cyngor Conwy i’r cyhoedd enwi eu peiriannau graeanu. Er nad yw Llandyrnog yng Nghonwy, mae’r enwau’n haeddu cael eu rhestru yma (er ei bod hi’n drueni nad oes enwau Cymraeg yn eu plith).

- ❄ Auntie Freeze
- ❄ Gritasaurus
- ❄ Sir Gritlot
- ❄ Miserable Ol’ Grit
- ❄ Snow Donia
- ❄ Professor Chris Whitty Gritty
- ❄ Eazy Peazy
- ❄ Anti Freezy
- ❄ Jack De-Frost
- ❄ Dave
- ❄ Van Halen
- ❄ Social Distancing Freezy Rider



Prompt Travel

Taxi & Private Hire

4, 8 & 16-seat vehicles
24 hrs 7 days a week



01824 790485
07974 862027

Teithiau Prydlon



Tacsi a Hurio Preifat



Mae gwasanaeth Archifau Gogledd Ddwyrain Cymru, sy’n cynnwys archifau Sir Ddinbych a Sir Fflint, wedi cael grant i gyd-weithio â Theatr Clwyd i greu ffilmiau byr mewn arddull monolog. Ynddyn nhw cawn hanes merched cryf ac ysbrydoledig, sy’n seiliedig ar straeon go iawn mewn casgliadau yn Rhuthun a Phenerlâg. Maen nhw’n cynnwys prifathrawes a ymroddodd yn llwyr i addysg, gweddw glöwr a laddwyd yn nhrychineb glofa Gresffordd, Marged ferch Ifan enwog –*‘an extraordinary female who was the greatest hunter, shooter, and fisher, of her time’*, yn ôl Thomas Pennant, a mam yn synfyfyrio am iselder ar ôl geni. Lowri Jones, Nant Glyd, sy’n portreadu hon.

Gallwch weld y fideos ar YouTube ([youtube.com](https://www.youtube.com)) – chwiliwch am *Women Rediscovered: Denbigh*.

Tambo’s Total Care

Garden Maintenance

- Gardening
- Fencing
- Tree Work
- Turfing
- Hedges
- Logging
- Pressure Washing

Contact **Oli Williams**

Mob: 07501022017

Email: ohwwilliams75@gmail.com

Albert Edward Roberts (Alby i'w gydnabod)



Roedd Alby, a siaradai Cymraeg yn rhugl, yn unig blentyn a gafodd ei eni a'i fagu yn Rhuthun. Cafodd ei addysg yn Rhuthun, yn Ysgol Gynradd Borthyn ac wedyn yn Ysgol Uwchradd Brynhyfryd.

Fe wnaeth ei wasanaeth cenedlaethol yn y fyddin fel aelod o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, a chafodd ei anfon dramor i

Gyprus. Roedd yn falch iawn o'i gysylltiadau â'r Ffiwsilwyr, ac roedd achlysuron fel Sul y Cofio, a digwyddiadau a oedd yn ymwneud â'r lluoedd arfog, yn bwysig iawn iddo. Roedd yn aelod o'r Lleng Brydeinig Frenhinol, ac nes i'w iechyd ddirywio, roedd yn helpu i redeg y gangen leol yn Ninbych.

Cyfarfu Alby â'i wraig, Gwyneth, pan oedd y ddau yn eu hugeiniau, ac yna fe wnaethon nhw briodi ym 1954. Ganwyd tri o blant iddyn nhw – Graham (a fu farw), Moyra, a Brenda. Buon nhw'n byw yn Llandyrnog ar hyd eu bywyd priodasol, gan fagu eu tri phlentyn yn y pentref. Bu farw Gwyneth ar 18 Awst 2018, ychydig cyn ei phen-blwydd yn 90 oed. Roedd Alby a Gwyneth wedi bod gyda'i gilydd am bron i 70 o flynyddoedd, 65 ohonynt yn ŵr a gwraig.

Ar ôl gorffen ei wasanaeth cenedlaethol gyda'r lluoedd arfog, daeth Alby yn swyddog llywodraeth leol, gan weithio i Gyngor Dosbarth Glyndŵr yn Rhuthun a Chyngor Sir y Fflint yn yr Wyddgrug, nes iddo ymddeol. Ar ôl ymddeol, daeth yn gynghorydd cymuned yn Llandyrnog ac yna'n gynghorydd sir, yn gwasanaethu o dan Gyngor Dosbarth Glyndŵr. Tra oedd yn Gynghorydd Sir, daeth Alby yn bennaeth y Pwyllgor Cynllunio. Arweiniodd hynny at ei benodi'n gadeirydd olaf Cyngor Dosbarth Glyndŵr am y flwyddyn 1994/1995 cyn i hwnnw gael ei ddileu wrth i lywodraeth leol gael ei had-drefnu. Daeth

Cyngor Sir Dinbychi fodolaeth wedyn. Un o'r llwyddiannau yr oedd fwyaf balch ohono wrth wasanaethu fel cadeirydd olaf Cyngor Dosbarth Glyndŵr oedd arwain yr ymgyrch i sicrhau bod Bryniau Clwyd yn cael statws Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.

Chwaraeodd Alby ran fawr ym mywyd pentref Llandyrnog, nid yn unig fel cynghorydd cymuned, ond wrth helpu i redeg timau pêldroed y pentref, y clwb snwcer, y clwb ieuenctid, a gofalu am y fynwent. Bu hyd yn oed yn helpu y tu ôl i'r bar yn y dafarn leol, The Golden Lion. Roedd yn aelod o'r eglwys leol yn Llandyrnog, a byddai'n mwynhau mynd yno ar fore Sul. Roedd hefyd yn aelod o glybiau a chymdeithasau lleol eraill yn Llandyrnog.

Mae Alby yn gadael dwy ferch, Moyra a Brenda; ei fab yng nghyfraith, Dilwyn; dau o wyrion, Mathew ac Amy (a Tom, gŵr Amy), a gor-ŵyr, Osh.

Rysâit: Cacennau pysgod

1 ffled o samwn – 4–5 owns

1 tun bach o ffledau macrell mewn olew olewydd

1 pwys o datws

Llund dwrn o bersli wedi'i dorri'n lled fân
Pupur a halen

Coginiwch y tatws a'u stwnsho.

Mewn powlen, ychwanegwch y samwn a'r tun o ffledau macrell, heb yr olew. Cadwch yr olew.

Cymysgwch y cyfan â'i gilydd gyda'r persli a'r pupur a halen.

Gwnewch gacennau bach o'r cymysgedd a'u ffrio yn yr olew a gadwyd, ac ychydig o olew had llin, os oes angen.

Rhowch haen o wy a briwsion bara amdanyn nhw os hoffech chi, ond does dim rhaid.

Evelyn Weyman

Nodiadau o Blas Ashpool

On’ d ydi hi’n newyddion da ein bod ni, o’r diwedd, yn cael ein brechu a bod ychydig o’r cyfyngiadau wedi’u codi? Yn ogystal, mae’r tywydd yn dechrau gwella. Mae ychydig o heulwen yn help mawr i wneud i ni deimlo ychydig yn fwy calonnog. Hefyd, mae’r heulwen wedi gwneud gwahaniaeth anferth i’r ardd dros y mis diwetha. Yn sydyn, mae popeth yn dechrau codi’i ben. Mae cymaint o egni o gwmpas yr adeg hon o’r flwyddyn.

Yma ym Mhlas Ashpool hefyd mae chwa sydyn o egni wedi dod. Un nod tymor hir gen i ar gyfer yr ardd yw lleihau nifer y borderi llwyni a blodau, i wneud pethau’n haws eu trin. Felly rydyn ni wedi bod yn clirio ychydig o lwyni hen iawn sydd wedi gordyfu. Wel, am wahaniaeth! Mae’n teimlo fel petai pwysau mawr wedi’u codi. Eisoes mae’r planhigion o’u cwmpas wedi blaguro a rŵan mae gen i gyfle i roi maeth i’r pridd a’i ailblannu mewn ffordd haws ei chynnal. Os oes gennych chi ran yn eich gardd sydd wedi gordyfu, dydy hi ddim yn rhy hwyr i’w glirio. Bydd eich gardd yn falch iawn.

Mae merch ffrind i mi newydd gael ei swydd gyntaf gyda Freddie’s Flowers, fel dylunyd cynorthwyol. Ei gwaith fydd helpu i greu trefniadau ar gyfer eu gwaith hyrwyddo. Doeddwn i ddim yn gwybod bod cymaint o waith wrth werthu blodau! Ond rwy wedi sylwi, fodd bynnag, bod prynu blodau sydd wedi’u tyfu yn y wlad hon yn dod yn fwy poblogaidd. Rydym yn ffodus iawn fod gennym ychydig o bobl sy’n tyfu blodau yn lleol. Mae’n teimlo gymaint yn well fod y blodau y gallwn ni eu prynu’n lleol heb deithio o ben draw’r byd.

Wrth gwrs, ynghyd â chyffro’r Gwanwyn, rwy’n dyheu am gael darn yn yr ardd i dyfu blodau i’w torri (prosiect arall i’w roi ar fy rhestr sy’n tyfu bob dydd). Gan ystyried hyn, rwy wedi bod yn darllen y rhestrau hadau sy’n dod yn rheolaidd drwy fy e-byst neu drwy’r

post. Wrth bori trwyddyn nhw’r diwrnod o’r blaen, cefais fy atgoffa am enwau cyffredin hyfryd rhai o’n blodau poblogaidd. Dyma ychydig o fy hoff rai i: Love-in-a-Puff, Beeblossom, Bunny’s Tail, Baby’s Breath, Prince’s Feather, Shoo-fly, Granny’s Bonnet, Winecup a Forget-Me-Not – dim ond ychydig yw’r rhain. Ydych chi’n gwybod am ragor i’w hychwanegu at y rhestr, ac enwau diddorol Cymraeg ar flodau yn yr ardd y gallwch eu torri a dod â nhw i’r tŷ? Rhowch wybod i’r *Llais*.

I ffwrdd â mi rŵan i fynd i’r afael â rhagor o waith clirio, gyda help brwdfrydig yr ieir. Mae’r rhain wedi’u cyffroi’n lân o wybod y byddan nhw’n cael cinio ysgafn o bryfed genwair a chwilod. Tan y mis nesa, mwynhewch y garddio.

Fiona Bell



Locally bred and home-killed meat

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday-Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

Deliveries daily throughout the area


Tri hoff le ... Earle ac Elaine Wright

Llundain ydi un o’n hoff ddinasoedd ni gan fod cymaint i’w weld a’i wneud mewn ardal gweddol fach.

Fel arfer, byddwn yn teithio yno ar drên ac yna’n mynd o gwmpas y ddinas ar droed. Mae’n talu cynllunio ymlaen llaw ac fel arfer, ryden ni’n ymweld â galeri, amgueddfa, lleoliadau ffilmiau a rhai tafarndai hanesyddol (mae’n rhyfeddol gweld sawl un sy’n hawlio mai hi oedd hoff dafarn Dickens!).

Yng Ngwanwyn 2018, mi aethon ni i’r Oriel Genedlaethol gyda dau ffrind o Ogledd Cymru, i weld arddangosfa dros dro, *Manod: The Nation’s Treasure Caves*. Roedd hon o ddiddordeb arbennig i ni am fod nifer o baentiadau’r Oriel wedi eu cadw yn Chwarel Lechi Blaenau Ffestiniog yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Erbyn dod allan o’r Oriel, roedd y tywydd wedi troi’n oer iawn a chawodydd o eirlaw. Felly, dyma ni’n anelu am gaffi gwych Liberty am gynhesrwydd a lluniaeth ar ôl cael blas ar ychydig o hanes a diwylliant.

Ddwly flynedd yn ôl, mi arhoson ni ar Safle Clwb Carafanau Crystal Palace. Mae hwn yn lleoliad delfrydol i aros os ydych am deithio oddi yno i’r brifddinas mewn trên neu fws. Roedd yn drîth cael Llundain ar ‘stepen drws’, a buom ar sawl taith i mewn i’r ddinas. Un o uchafbwyntiau’r gwyliau yma oedd ymweld â Thŵr Llundain – rhywle roedden ni wedi ei osgoi yn y gorffennol oherwydd y ciwiau hir.



Ryden ni bob amser yn mwynhau croesi’r Tafwys, mynd am dro ar hyd South Bank a gweld safleoedd o bwys o fannau ffafriol eraill. Mae gan y tŵr OXO far coctel ar y llawr ucha’, a ‘golygfeydd anhygoel o Gadeirlan Sant Pawl a nenlinell y Ddinas’. Ffordd hyfryd o orffen diwrnod ar ôl crwydro drwy’r dydd.

Roedd Spitalfields ar ein rhestr, ac roedd yn werth ei weld yn enwedig i gael dysgu mwy am yr Huguenots Ffrengig a setlodd yn yr ardal yn ystod 17G, a gwneud bywoliaeth yn gwehyddu defnyddiau sidan. Mae’r farchnad dan do yn Spitalfields yn lle prysur, bywiog, yn gwerthu pob math o nwyddau a bwydydd. Mae’r stondinau bwyd y tu mewn yn gwerthu pob math o fwydydd o bob rhan o’r byd, a hynny am brisiau rhesymol.

Mae’n siŵr y bydd hi’n o hir cyn y gallwn ni drefnu taith arall i Lundain, ond mae digon o

Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW
01745 814918

**For all farmyard & agricultural
accessories & building supplies**

- ☞ **Tanalised timber**
- ☞ **Concrete posts**
- ☞ **Panel fencing**
- ☞ **Water pipe fittings**
- ☞ **Water tanks**
- ☞ **Sand**
- ☞ **Cement**
- ☞ **Concrete blocks**

Tri hoff le ... parhad

leoedd o ddiddordeb eto i ymweld â nhw ar ein rhestr – mae honno’n dal i dyfu!

Dros dri deg mlynedd yn ôl, ymfudodd fy mrawd, ei wraig a’u mab 11 oed i **Perth**, Gorllewin Awstralia. Mae wedi bod yn lle arbennig i Earle a minnau, ac ryden ni wedi teithio yno nifer o weithiau.

Perth ydi prif dref Gorllewin Awstralia, ac er ei bod yn ymddangos yn bell o bob man, mae ganddi rywbeth at ddant pawb! Mae’n ddinas prifysgol, a digonedd o leoliadau celfyddydol, sawl stadiwm chwaraeon, siopau a lleoedd bwyta – a’r rhain i gyd ar lan yr Afon Alarch!

Mae sicrwydd o haul braf bron drwy’r flwyddyn yn gwneud bywyd yn yr awyr agored yn hawdd, ac mae’r mwyafrif wrth eu bodd, yn enwedig ymwelwyr o Brydain! Ryden ni wedi treulio dau Nadolig ‘yr ochr arall i’r byd’, pan mae’r tymheredd dros 30 °C yn gyson. Roedd trip i’r traeth a throchi yng Nghefnfor yr India yn hanfodol!



Ryden ni wrth ein bodd yn ymweld dro ar ôl tro â King’s Park â’i goed a’i flodau brodorol. Cewch olygfeydd godidog dros ddinas Perth a’r Afon Alarch oddi yno. Mae’n lle poblogaidd am bicnics neu goffi a chacennau. Yn aml mi welwch chi grwpiau o bobl yn dathlu pen blwyddi neu briodasau yn ysblander y parc.

Chwefror 2020 oedd ein hymweliad diweddaraf a hwn oedd yr un mwya’

cofiadwy. Cawson ni wahoddiad i briodas ein nai yn ardal Afon Margaret, i’r de o Perth.

Tra oedd y paratodau’n prysuro, aeth Earle a minnau i ymweld â maestrefi Perth ar drên, a phicio yma ac acw i lefydd diddorol. Mae chwe changen i’r rhwydwaith rheilffordd, a dinas Perth yn y canol. Mae’r canghennau’n mynd i’r gogledd, i’r dwyrain ac i’r de, ac yn cysylltu’r gwahanol faestrefi â chalon y ddinas. Dros nifer o ddyddiau, mi deithion ni i ben pob un o’r chwe lein, gan fwynhau coffi ac edrych o gwmpas; roedd pob lle yn wahanol a diddorol iawn.

Roedden ni’n gwybod y byddai’r seremoni’n cael ei chynnal yn yr awyr agored, ond dyna syndod gawson ni wrth landio yn llannerch Coedwig Boranup, a choed Karri mawreddog yn ein hamgylchynu. Aeth y dathlu yn ei flaen – mewn ac o amgylch cabanau pren yn nwfyn y ‘bwsh’. Ar ôl dod ’nôl i Gymru ychydig ddyddiau wedi’r briodas, roedd y Cyfnod Clo a’i holl broblemau’n ein hwynebu – wel dyna groeso adre!

Mae’n siŵr bod gan y rhan fwyaf o bobl le arbennig o amser eu plentyndod. Aberdaron ydi fy lle i – wedi ei leoli mewn cilfach ar drwyn Penrhyn Llŷn. Hyd yn oed rŵan, fel oedolyn, mae’n dal yn lle arbennig i mi, ac mae ’na nifer o atgofion melys. Fel unig blentyn, oedd yn cael ei sbwyllo braidd yn y pumdegau, roeddwn i’n ddigon ffodus i fynd ar ein gwyliau yno bob blwyddyn. Dydw i byth yn blino ar y lle, er ’mod i mor gyfarwydd â’r pentre.

Sut ddaeth fy rhieni i wybod am Aberdaron? Rhaid diolch i ewythr a modryb i mi am hynny. Doedd ganddyn nhw ddim plant eu hunain, ac efalle’n rhannol oherwydd hynny, roeddwn i’n cael sylw arbennig. Roedden nhw’n mwynhau teithio drwy Gymru, ac ar un daith, yn syth ar ôl yr ail ryfel byd, dyma nhw’n cyrraedd Aberdaron, neu i fod yn fanwl-gywir, Uwchmynydd, sy’n uwch i fyny. Dim ond un capel, un blwch ffôn ac un siop fechan. Gofynnodd fy modryb i bobl y siop a oedd ’na

Tri hoff le: parhad



Earle yn Aberdaron

lety yn ymyl, gan ei bod hi'n rhy hwyr i deithio adre'r noson honno. Na, doedd y siopwr ddim yn gwybod am unman, ond, yn garedig iawn, cynigiodd iddyn

nhw aros am noson yn ei thŷ hi.

Enw'r siopwraig oedd Mrs Mary Williams, oedd yn gwerthu holl anghenion y bobl leol – siop bob dim. Roedd gan ei gŵr, Humphrey, weithdy'n sownd yn y siop, ac ymysg pethau eraill roedd o'n gwneud eirch – siop bob dim go iawn! Ar ôl y rhoi llety i f'ewythr a'm modryb, cychwynnodd Mrs Williams gadw gwely a brecwast bob haf, a pharodd hynny ymhell i'r 1970au. Arhosodd f'ewythr a'm modryb yno lawer gwaith wedi hynny, a dyna sut y bu i fy rhieni aros gyda Mary a Humphrey.

Yn ddiweddarach, mi arhoson ni yng nghanol Aberdaron ei hun – Gwesty'r Llong. Fel bachgen bach, roedd teithio i Aberdaron o'n cartref ym Mhenarlâg yn daith hir! Doedd dim ffyrdd osgoi i'w cael o amgylch Llaneurgain, Conwy, Llanfairfechan na Bangor, nag unrhyw le arall yr adeg hynny; tri gêr oedd i'r ceir, a rhywbeth roedd peilotiaid yn eu gwisgo oedd gwregysau diogelwch. Yr 20 milltir ola' o Bwllheli oedd yr hiraf; roedd y ffyrdd fel tasen nhw'n culhau, a'r cloddiau a'r gwrychoedd yn mynd yn uwch ac yn uwch! Yna, o'r diwedd, dod i olwg yr arwydd Aberdaron a diwedd y daith. Dim ond ar ôl yr allt serth ola' byddai Aberdaron yn dod i'r golwg. Mae'r olygfa gyntaf honno wedi bod yn ddigyfnewid dros y blynnyddoedd: y popty, y bythynnod gwyn, y nant fechan yn llifo o dan y bont garreg fechan, y siop, y ddau westy – y cwbl yno, yn eu lle priodol.

I'w barhau yn y rhifyn nesa'!!

Brechlyn polio

Rydym heddi yn gallu gwerthfawrogi'n fawr waith y rheini a ddatblygodd y brechlyn yn erbyn Covid19, ond rhaid i ni hefyd ddiolch i ddoctor o America am lwyddo i waredu clefyd difrifol arall o bron bob man yn y byd, sef polio. Dim ond yn Afghanistan, Pakistan a Nigeria mae'r clefyd yn fyw o hyd.

Yn yr 1940au a'r 1950, roedd rhieni'n ofni polio yn union fel mae rhieni heddiw'n ofni meningitis. Roedd plant iach yn cael eu taro'n wael, wedi'u parlysu ac yn gorfod defnyddio 'ysgyfaint haearn', naill ai dros dro neu am gyfnodau hirach.

Datblygodd Albert Sabin, mab i Iddewon o Wlad Pwyl, frechlyn i'w gymryd drwy'r geg. Cafodd drwydded i'w frechlyn cyntaf yn erbyn math 1 o'r firws polio 60 mlynedd yn ôl yn yr Unol Daleithiau ym mis Ebrill 1961, a thrwyddedwyd y brechlynnau ar gyfer math 2 a 3 yn 1962. I ddechrau, byddai'r tri math o frechlyn yn cael eu rhoi gyda'i gilydd ar lwmp siwgwr – mae'n sicr bod pobl o oed arbennig (y rhai dros 60!) yn cofio hyn.

Gwrthododd Sabin roi patent ar ei frechlyn, i atal pob math o elw masnachol gan ddiwydiannau fferyllol, er mwyn i'r pris isel warantu y byddai'r driniaeth yn cael ei defnyddio'n ehangach. Enillodd Sabin mo'r un geiniog o'i frechlyn a pharhaodd i fyw ar ei gyflog fel athro prifysgol.

Sefydlwyd Sefydliad Brechlynnau Sabin yn 1993 i barhau'r gwaith o ddatblygu brechlynnau a'u hyrwyddo. Mae'n dyfarnu Medal Aur Albert B Sabin bob blwyddyn i gydnabod gwaith ym maes datblygu brechlynnau neu mewn maes sy'n ategu hyn.



Gair gan y Rheithor

Bellach, mae blwyddyn gyfan ers y Cyfnod Clo cyntaf. Roedd pob her roedden ni'n gorfod ei hwynebu yn nyddiau cynta'r cyfnod yn her newydd, ddiarth a ninnau'n ymbalfalu yn y tywyllwch. Bu raid i'r gwyddonwyr a'r GIG ddysgu'n gyflym wrth ymdrechu i ddeall mwy am y clefyd heintus yma, a sut i'w drin. Parchwn, a diolchwn i gymaint o bobl roddodd ofal anhunanol yn wyneb yr holl beryglon. Wrth i ni baratoi am ail Basg y pandemig, mae pethau na chlywsom amdanynt ddeuddeng mis yn ôl yn cael eu derbyn fel realiti. Mae eglwysyn paratoi i ail-agor ar gyfer y Pasg wrth i gyfyngiadau'r cyfnod clo lacio fymryn.

Bydd Dydd Gwener y Groglith eleni ar ddechrau Ebrill – diwrnod trist i feddwl yn ddwys am y Dioddefaint, ond diwrnod fydd yn arwain at lawenydd yr Atgyfodiad.

Dyma chwedl am dair coeden oedd yn tyfu ochr yn ochr ar lechwedd. Breuddwydiodd y tair coeden am eu dyfodol – sut rai fydden nhw, wedi tyfu'n dal a chryf. Roedd y goeden gynta'n dychmygu y byddai'n gist drysor hardd, wedi ei haddurno ag arian ac aur a gemau gwerthfawr. Dymunai'r ail goeden fod yn llong gadarn fyddai'n hwylio'r moroedd wrth gario pobl i bedwar ban byd. Y cwbl roedd y drydedd goeden yn dymuno gwneud oedd aros lle'r oedd hi a mwynhau'r harddwch o'i chwmpas.

Ymhen blynnyddoedd, daeth y torrwr coed a thorri'r tair coeden i lawr. Gwnaethpwyd cafn bwydo allan o'r gyntaf a chwch bychan allan o'r ail – i hwylio ar lyn, nid y moroedd mawr. Daeth y drydedd goeden yn drawstiau yn iard y torrwr coed, i'w defnyddio ryw ddiwrnod. Roedd pob un ohonynt wedi breuddwydio am beth allasai fod wedi digwydd iddyn nhw.

Ond, flynyddoedd lawer wedyn, rhoddwyd plentyn bach yn y cafn bwydo mewn stabal ym Methlem – y trysor mwyaf erioed. Defnyddiwyd y cwch gan bysgotwyr ar Lyn Galilea. Pan ddaeth y storm i chwipio'r tonnau, cododd un dyn ar ei draed a

gorchymyn i'r gwynt a'r glaw dawelu.

Arhosodd y drydedd goeden yn y domen goed tan iddi gael ei defnyddio un dydd Gwener i wneud croes, a'i chario i fryncyn, i ddal Brenin y Brenhinoedd.

Yn ôl y chwedl, roedd y tair coeden wedi chwarae eu rhan ym mywyd Iesu: y babi bach yn y preseb (Luc 2:7); tawelu'r storm (Marc 4:35–41), a'r croeshoelio Ddydd Gwener y Groglith (Marc 15:33–39). Yn ddi-feth, bydd Dydd Sul y Pasg yn dilyn y Dydd Gwener hwnnw, ac Iesu'n codi o farw'n fyw (Mathew 28:1–6), a bydd yn fyw byth mwy.

Mae'r Pasg yn amser llawen, yn llawn addewid a gobaith. Cawsom deimlo gwres y Gwanwyn y dyddiau diwethaf 'ma a'r teimlad bod bywyd newydd ar y ffordd. Golau a bywyd newydd wedi dyddiau tywyll y gaeaf. Mae hi fel petai natur yn aros am y Pasg cyn dod â bywyd newydd i'r byd, wrth i ni ddathlu'r bywyd newydd yng Nghrist.

Dymunaf heddwch a llawenydd y Crist Atgyfodedig i chi,
Gyda phob bendith,
Val Rowlands



Professional and personal
Foot Care in the comfort
and privacy of your own
home.

Treatments Include:

- ✦ Corn/Callus Removal
- ✦ Diabetic Foot Care
- ✦ Nail Trimming
- ✦ Thickened Nails
- ✦ Athlete's Foot
- ✦ Fungal Nails
- ✦ Cracked Heels
- ✦ Ingrown Toe Nails
- ✦ Verrucae
- ✦ Foot Care Advice

Initial Assessment FREE

01824 735070

07387 583971

dyffrynfootcare@gmail.com

<http://dyffrynfootcare.com>

Dyffrynfootcare

@dyffrynfootcare



Chernobyl

Mae rhai pobl yn cofio'n union lle'r oedden nhw pan saethwyd Kennedy fis Tachwedd 1963 – fel hogyn pum mlwydd oed ar y pryd, doedd y digwyddiad ddim wedi fy nharo i fel un pwysig.

Ewch 'mlaen at Ebrill 26ain yn y flwyddyn 1986, 35 o flynyddoedd yn ôl, ac ydw, dwi'n cofio'r diwrnod hwnnw'n dda iawn – diwrnod y danchwa yn Chernobyl. Dw i'n cofio ffrind, oedd yn deall arwyddocâd hyn yn llawer gwell na fi, yn dweud y byddai'r ymbelydredd yn hofran uwch ein pennau mewn dim o dro. Roedd Chernobyl 2000 o filltiroedd i ffwrdd – am be roedd hwn yn mwydro??

Ta waeth, 'chydig feddyliem ni y byddai'r cymylau marwol yma, drwy broses dyddodiad dros dir uchel, yn gwasgaru'r caesiwm ymbelydrol dros ucheldir Cymru o ganlyniad i'r trychineb. Dioddefodd Ucheldiroedd Gwynedd ergyd drom – ardaloedd fel y Migneint, Ysbyty Ifan a Dolgellau.

Oherwydd y ffrwydrad, bu raid i 100,000 o bobl o'r Wcráin a Belarws adael eu cartrefi am byth. Mae'r ardal, sy'n mesur 3,000 milltir sgwâr (7,769km) yn dal yn wag a difwyd heddiw. Os gwelsoch chi raglen Ben Fogle yn ddiweddar, *Inside Chernobyl*, roedd llawer o'r wybodaeth yn gwneud i rywun arswydo. O ddilyn cyfradd bresennol y gostyngiad mewn ymbelydredd, fe gymerith hi 20,000 o flynyddoedd cyn i unrhyw un allu byw bywyd normal yng nghyffiniau Adweithydd Rhif 4.

Er gwaetha' chwalfa mor fawr, mae nifer y marwolaethau o achos y ddamwain, yn **swyddogol**, yn dal i fod yn 31. Cafodd dau berson eu lladd yn syth gan y danchwa a'r arbelydriad, a bu farw gweithwyr y lle a'r ymatebwyr cyntaf, a oedd yn nannedd yr ymbelydredd marwol yn y dyddiau, yr wythnosau a'r misoedd wedyn, wrth iddyn nhw glirio a diogelu'r adweithydd. Canlyniad uniongyrchol y trychineb yn Ebrill 1986 oedd cyfyngu ar symudiad bron i 4,225,000 o ddefaid ar 9,700 o ffermydd, i rwystro'r cig rhag cyrraedd ein cadwyn fwyd.

Daeth swyddogion y Llywodraeth o gwmpas pob fferm oedd wedi cael ei heffeithio i sganio'r defaid oedd yn barod i'r gadwyn fwyd. Yn dibynnu ar y prawf, byddai marc melyn-oren, gwyrdd neu las ar gefn y defaid yn dangos effeithiau ymbelydredd dros 1,000 becereil y cilo (BK/KG). Doedd dim hawl eu gwerthu am o leiaf dri mis – roedd effaith hyn mor andwyol ar gymaint o ffermydd.

Allwn ni ddim ond dychmygu sut byddai hyn wedi amharu ar iechyd meddwl rhai ffermwyr oedd â chymaint o feddwl o'u defaid, yn eu gweld o gwmpas y fferm â gwahanol liwiau hyll ar eu cefnau.

Soniai rhai amdanynt fel stoc 'budur' – a doedd dim bai ar y ffermwyr, dim ond bai ar ddigwyddiad 2000 o filltiroedd i ffwrdd, ugain mlynedd yn ôl.

Codwyd y cyfyngiadau yn yr Alban yn 2010. Ond roedd y cyfyngiadau'n dal i fod yn eu lle yng Nghymru ar dros 300 o ffermydd hyd at 2012. Ymestynnodd y ffrâm amser a roddwyd gyntaf gan y Llywodraeth o dri mis i 26 mlynedd!

Mae'n siŵr mai'r pwynt rydw i'n drio'i wneud ydi bod y diwydiant amaeth yn gwybod sut i ymdrin â phandemig. Yn sgil Chernobyl a Chlwy'r Traed a'r Genau yn 2001, mae byd amaeth wedi wynebu sefyllfaoedd anodd, ac wedi addasu a goroesi er mwyn parhau crefft gyntaf dynol ryw.

Rhaid nodi yn y fan hon, oherwydd y ddau ddigwyddiad yma, bod cyfarwyddiadau llym iawn mewn grym ar symud a gwaredu anifeiliaid, pa feddyginiaethau i'w defnyddio – pryd a pham, archwiliadau adeiladau a chyfleusterau lles. Mae'r cofnodion hyn yn cael eu gwirio'n fanwl i wneud yn siŵr bod y cwsmer yn y pen draw, h.y., chi a fi, yn mwynhau ein cig Cymreig yn llawn hyder.

Felly, mwynhewch y Pasg, ac os ydych chi'n ffansio darn o gig oen, bîff neu borc – gwnewch yn siŵr ei fod o'n gig Cymreig!

Bryn Davies

Wythnos Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd 29 Mawrth–4 Ebrill



Mae Diwrnod Ymwybyddiaeth Awtistiaeth y Byd wedi cael ei ddathlu ar 2 Ebrill ers 2007 – un o ddim ond saith diwrnod swyddogol y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud ag iechyd. Mae'n dathlu llwyddiannau pobl sydd ag awtistiaeth drwy arddangosfeydd a gweithdai artistig. Hefyd mae rhaglenni teledu a radio a phapurau Newydd yn cynnwys straeon am bobl ag awtistiaeth a'u bywydau.

Felly beth yw awtistiaeth?

Mae awtistiaeth, neu anhwylder sbectrwm awtistiaeth (ASD: *autism spectrum disorder*) yn cyfeirio at ystod eang o gyflyrau. Eu prif nodweddion yw anhawster gyda sgiliau cymdeithasol, ymddygiad ailadroddus, siarad a chyfathrebu dieiriau.

Y ffeithiau allweddol

- Mae awtistiaeth ar nifer fwy o ddynion nag o ferched
- Mae awtistiaeth yn rhan o fywyd pob dydd 2.8 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig
- Mae pobl sydd ag awtistiaeth yn byw bywydau annibynnol
- Mae'n gallu bod yn anodd i bobl sydd ag awtistiaeth ddeall emosiynau
- Mae gan rai pobl sydd ag awtistiaeth synhwyrau sensitif iawn.

Gallwn helpu pobl sydd ag awtistiaeth drwy ddefnyddio iaith eglur, syml.

Y 10 myth mwyaf cyffredin ynghylch awtistiaeth

- 1 – Mae awtistiaeth yn glefyd
- 2 – Mae brechlynnau'n achosi awtistiaeth
- 3 – Mae awtistiaeth yn dod yn epidemig
- 4 – Mae gallu *savant* gan bawb sydd ag awtistiaeth
- 5 – Dydy pobl sydd ag awtistiaeth ddim yn

teimlo emosiwn

6 – Mae anabledd deallusol gan bobl sydd ag awtistiaeth ac maen nhw'n methu siarad

7 – Mae'n bosib 'tyfu allan o awtistiaeth'

8 – Mae pobl sydd ag awtistiaeth yn methu dysgu

9 – Magu plant yn wael sy'n achosi awtistiaeth

10 – Mae plant sydd ag awtistiaeth yn fwy treisgar


Ychydig o bobl adnabyddus sydd neu oedd ag awtistiaeth

Charles Darwin, Susan Boyle, Albert Einstein, Michelangelo, Wolfgang Amadeus Mozart, Syr Isaac Newton, Greta Thunberg

Os hoffech chi gael cip ar fywyd merch yn ei harddegau sy'n byw gydag awtistiaeth, darllenwch *M am Awtistiaeth*. Cafodd hwn ei ysgrifennu ar y cyd gan ddisgyblion Limpsfield Grange School, ysgol arbennig yn Surrey i ferched ag awtistiaeth.

Mae ar gael mewn llyfrgelloedd o dan y cynllun Darllen yn Well.

Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd wedi ymrwmo i'r ymgyrch i wneud Cymru decach, fwy cynhwysol ac amrywiol trwy gymryd rhan yn yr ymgyrch #WeliDiFi gan Awtistiaeth Cymru.



Capel y Dyffryn

Yn ogystal â'r gwasanaethau Zoom arferol ar fore Sul gan y Parch. Andras Iago, cynhaliwyd gwasanaeth dathlu Gŵyl Ddewi fore Sul Chwefror 28ain. Cydlynodd Ffiona a Catrin y gwasanaeth gyda 25 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn darlleniadau, unawdau ayb. Fel rhan o'r arlwy, roedd Ceri a Ffiona wedi gadael cacennau cri ar stepen y drws yr aelodau i'w mwynhau gyda phaned o goffi, wrth wylio'r gwasanaeth!

Diolch am y fainc!



Mae’r fainc newydd ger Groesffordd Celynog yn boblogaidd. Gobeithio y bydd tywydd teg y gwanwyn yn rhoi cyfle i ragor ohonon ni eistedd arni. Diolch yn fawr i’r Cyngor Cymuned am ei gosod! Dyma Gwilym Williams bach, John a Buddug Foulkes, a Gerry a Karen Connell a Jack y ci bach yn cael seibiant braf.

**Diwrnod
y
Ddaear**



Sefydlwyd Diwrnod y Ddaear dros 50 mlynedd yn ôl ac mae’n ddigwyddiad byd-eang a gaiff ei ddatlu ar 22 Ebrill bob blwyddyn. Ei nod yw dangos cefnogaeth i amddiffyn yr amgylchedd a chodi ymwybyddiaeth ohono. Bydd tridiau o weithgareddau’n dechrau ar 20 Ebrill – ewch i earthday.org am ragor o wybodaeth.

James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd
james.davies.mp@parliament.uk
Swyddfa’r etholaeth: 01745 888920
Swyddfa Westminster: 0207 2194606

CARPET SUPPLY
Home Choose Carpets
FREE Estimates
CARPET FITTING
Own Carpets Fitted
Carpet Refitting Service
CARPET CLEANING
Call Andy
07900 907253
wetordrycarpetcleaning.com



Roedd yr holl ddisgyblion yn cael dod yn ôl i'r ysgol am bythefnos cyn diwedd y tymor ac roedd gallu eu croesawu nhw'n ôl yn wych. Yn naturiol, fe gymerwyd camau i geisio lleihau trosglwyddo'r firws.

Yn ystod y cyfnod clo, mae'r staff wedi bod yn brysur iawn. Yn ogystal â rhoi gwersi gartref i'r plant a goruchwyllo plant yr hwb, maen nhw wedi creu ardal synhwyrol newydd yn yr ysgol, wedi peintio'r llyfrgell ac wedi twtio ystafell y clwb brecwast! Gwylwch eich hunain, DIY SOS!

Pwnc y babanod ar hyn o bryd ydi gwyliau. Maen nhw wedi bod yn chwarae rôl mewn mathau gwahanol o deithio ac wedi dysgu am lefydd enwog o gwmpas y byd.

Fe gawson nhw amser gwych ar eu gwyliau rhithiol – prysurdeb y maes awyr, cael yfed diod oer, braf a chwarae ychydig o *volleyball*.

Adar yw pwnc y plant iau. Maen nhw wedi dysgu sut mae gwyddonwyr yn dosbarthu anifeiliaid, gan gynnwys adar; wedi arbrofi â siapiau gwahanol eu pigau, ac wedi dysgu am sut mae'r drudwyod yn hedfan gyda'i gilydd. Profiad arall oedd dysgu'r dechneg artistig i roi'r argraff bod y drudwyod yn symud.

I orffen y pwnc, fe ddysgon nhw sut i greu darluniau gan ddefnyddio pensiliau dyfrlliw. Dysgon nhw sut i wneud hyn drwy beintio towcan ac wedyn dewis eu haderyn lliwgar eu hunain i greu tudalen â darluniau i roi gwybodaeth amdano.

Diolch i bawb a gefnogodd Diwrnod y Trwynau Coch – roedd y plant yn edrych yn wych!

Cafwyd hela wyau Pasg hefyd ar ddiwedd y tymor.

(Yn anffodus does gennym ni ddim lluniau o'r ysgol – gobeithio y cawn ni nhw erbyn rhifyn y mis nesa)

Teyrnged: Joyce Jones



Ganwyd Joyce ym mis Mawrth 1932, a chafodd blentyndod hapus yn byw yn Llandyrnog gyda'i mam Lena a'i chwaer Morfydd. Aeth i Ysgol Llandyrnog, cyn mynd ymlaen i Ysgol Dinbych.

Gadawodd Joyce yr ysgol yn 14 oed, gan ddod yn gynorthwy-ydd iau yn y swyddfa yn Sanatoriwm Llangwyfan, a oedd yn arbenigo mewn trin y diciâu. Roedd hi wedi rhoi ei bryd ar fod yn swyddog carchar, ond oherwydd ei thaldra nid oedd hynny'n bosibl, ac ar ôl dilyn hyfforddiant fe ddaeth yn nyrs iechyd meddwl a mynd i weithio yn Ysbyty Gogledd Cymru yn Ninbych, nes iddi briodi.

Byddai Joyce a'i ffrindiau'n mynd yn aml i'r dawnsfeydd nos Sadwrn yn Llandyrnog a'r pentrefi'r cyfagos, ac yn un o'r dawnsfeydd hyn y cyfarfu â Gilbert ym 1956, ac yna ei briodi ym mis Rhagfyr 1956. Ar ôl priodi, fe wnaethon nhw ymgartrefi yn Llandyrnog a chafodd eu plentyn cyntaf, Gwen, ei geni ym mis Hydref 1957. Er iddi roi'r gorau i weithio'n llawn-amser pan briododd, cafodd Joyce swydd ran-amser wedyn ar fferm leol y Wern. Roedd ganddi lu o atgofion hapus o'r blynydd-oedd cynnar hynny yn ei bywyd priodasol, yn enwedig y partïon, lle'r oedd wrth law i helpu.

Yn nes ymlaen, fe ymgartrefodd yn yr Wyddgrug, lle bu'n gynghorydd yref am 21 o flynyddoedd. Fe wasanaethodd fel Maer yr Wyddgrug ddwywaith, yn 2000–1 ac wedyn eto yn 2007–8. Roedd un achlysur yr oedd yn arbennig o falch o chwarae ei rhan ynddo fel Maer, sef yr achlysur hwnnw ym mis Awst 2007 pan gafodd y cyfle i groesawu'r Eisteddfod Genedlaethol i'r Wyddgrug yn ei mam-iaith, y Gymraeg.

Pan gychwynnodd *Llais Llandyrnog*, daeth Joyce yn un o'r tanysgrifwyr, a byddai'n edrych ymlaen at ei ddarllen bob mis.

Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Mawrth y Cyngor Cymuned

- ♦ Mae cynrychiolwyr cwmni Wicksteed wedi bod i Gae Nant ac wedi cadarnhau y bydd y gwaith ar yr offer chwarae yn dechrau 10 Mai, gan obeithio na fydd unrhyw faterion sy'n ymwneud â Covid yn rhwystro hyn. Ni fydd hi'n bosib defnyddio'r offer chwarae am ryw wythnos.
- ♦ Nodwyd bod y tîm sy'n gofalu am y pafiliwn chwaraeon wedi bod yn gweithio'n galed i'w wella.
- ♦ Mae hi'n dda gweld bod y ffordd rhwng Groes Efa a'r Kinmel Arms wedi'i thrwsio i safon dderbyniol. Gobeithiwn fod hyn yn paratoi'r ffordd i gael wyneb newydd cyflawn.
- ♦ Mae'r Cyngor Sir wedi peintio llinellau gwyn ger croesffordd Llangwyfan yn ogystal â sawl cyffordd arall yn yr ardal.
- ♦ Mae'r Cyngor Cymuned wedi cael £3000 arall gan Grant Busnes Llywodraeth y Cynulliad. Cyngor Sir Ddinbych sy'n gweinyddu hwn a dyma'r trydydd taliad yn ystod Covid.
- ♦ Mae Grŵp Cysylltiadau Trigolion MHC wedi cyfarfod yn rhithiol a'r prif weithredwr, Mr Kelly, wedi cadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio â'r gymdogaeth. Bydd yn helpu i ddelio â materion sy'n achosi pryder, sef cyflymder ceir adeg newid shifftiau, cael gwared ar offer diogelwch personol yn amhriodol yng nghyffiniau Llangwyfan, ac arwyddion gwell i sicrhau danfon nwyddau i'r tai cywir ar y safle, ac nid i dai cyfagos.
- ♦ Roedd cynrychiolydd o'r Cyngor yn bresennol yng nghyfarfod rhithiol Urdd Cyfeillion Ysbyty Rhuthun. Cadarnhawyd eu bod yn hyderus y bydd y gwaith adnewyddu wedi'i orffen erbyn mis Rhagfyr 2021, er bod cyfyngiadau Covid wedi arafu'r gwaith.
- ♦ Mae'n fater o siom nad yw'r ffosydd ger

Maes y Wern wedi'u gwacáu, er i'r Clerc anfon cais at y Cyngor Sir. Byddai gwacáu'r ffosydd a chlirio'r draenau yn help mawr i ddelio â'r broblem hon sy'n achosi trafferth ers talwm.

- ♦ Yn sgil gweld manylion cyfrifon *Llais Llandyrnog Voice*, cytunwyd i gyfrannu £500 fel taliad unigol. Mae hyn i gyd-nabod y gwaith caled a gyflawnwyd i sicrhau bod copïau ar gael yn ystod y cyfnod clo a thuag at gostau argraffu yn y cyfnod anodd hwn. Dangosodd y dystiolaeth fanwl fod yr incwm wedi gostwng yn sylweddol.
- ♦ Mae Tŷ Gobaith wedi gofyn am gymorth ariannol, gyda'r wybodaeth eu bod yn cefnogi chwe theulu yn yr ardal ar hyn o bryd. Penderfynwyd cyfrannu £200.
- ♦ Trafodwyd cais cynllunio i godi tŷ arall yn lle Cwm Hyfryd. Penderfynwyd cefnogi'r cais, ar yr amod bod yr Awdurdod Cynllunio'n fodlon bod y wybodaeth a roddwyd gan asiant yr ymgeisydd yn bodloni polisi perthnasol RD4 y Cynllun Datblygu Lleol.
- ♦ Mae trigolion rhai rannau o'r pentre wedi mynegi pryder am safon y golau stryd yno. Dylid anfon unrhyw dystiolaeth am olau stryd isel at y Cyngh. Parry a fydd yn ei drosglwyddo i adran goleuadau stryd Cyngor Sir Ddinbych.
- ♦ Diolchwyd i Bryn am gyfrannu'r bocs blodau ger croesffordd Celynog.

Cyngor Sir Ddinbych

Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: merfyn.parry@denbighshire.gov.uk

Neu gadewch neges ar Facebook

